Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes
# Bryn Celyn
# Pentwyn
# Caerdydd
# CF23 7EH

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

## a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-Y-Groes |
| Awdurdod lleol | Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 78 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 16 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 24.2% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 33.3% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 0.282 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2014 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 20/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 16/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu Cymreictod, amrywiaeth a chyflawniad disgyblion yn arbennig o dda. Mae’r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth glir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy’n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae’r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau’r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i’r ysgol. Yn ogystal, mae’r arferion cryf o ran gofalu am les disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hunanhyder a’u hagwedd at fywyd yn gyffredinol.

Mae ethos yr ysgol wedi seilio’n gadarn ar weledigaeth gytûn sef lles, dyheadau uchel a pherthnasoedd da. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a’u hysgol. Mae defnydd y disgyblion o’r Gymraeg yn nodwedd gref ac maent yn defnyddio’r iaith yn gwbl naturiol tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Mae athrawon yn cydweithio’n llwyddiannus gydag ysgolion cyfagos er mwyn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysbrydoledig ac amrywiol i’r disgyblion. O ganlyniad, mae’r cwricwlwm cyfoethog sydd yn datblygu yn tanio dychymyg disgyblion ac yn eu hannog i ymchwilio i’w cymuned, eu dinas a’r byd ehangach.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol, er nid yw’r ysgol bob tro’n darparu cefnogaeth ac ymyraethau yn ddigon effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w hoedrannau a’u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus, gan gyfrannu’n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, nid yw medrau ysgrifennu lleiafrif y disgyblion hŷn wedi datblygu’n llawn, yn enwedig eu gallu i ysgrifennu’n estynedig.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

A2 Cryfhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl yn llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â meithrin ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned a'i hanes er mwyn dathlu amrywiaeth a datblygu eu medrau a'u hagwedd at ddysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i lawer ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn dangos cynnydd cadarn o un cyfnod i'r llall ac yn ystod y flwyddyn ysgol. Llwydda llawer o ddisgyblion i alw dysgu blaenorol i gof, caffael gwybodaeth a chymhwyso dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Mae defnydd y disgyblion o'r Gymraeg yn nodwedd gref. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n arbennig o dda ar oedolion ac ar ei gilydd ac yn parchu cyfraniadau eraill. Mae medrau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus yn fuan ar ôl dechrau yn yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 1 a 2, mae llawer yn sgwrsio'n hyderus a brwdfrydig am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth siarad â'i gilydd am gymeriad môr-leidr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd o fewn a thu allan i'w dosbarthiadau. Er yr heriau y maent wedi eu hwynebu yn ystod y pandemig, mae medrau iaith lafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu'n gyson ac yn cyrraedd safonau uchel.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd sy'n cynnwys rhaglenni digidol ysgogol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddarllen gwybodaeth i ddarganfod ffeithiau am ddinas Gaerdydd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol. Mae'r disgyblion mwy abl yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir i greu naws i'r gynulleidfa.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn ymarfer patrymau a siapiau yn llwyddiannus gan ddefnyddio gwahanol offer. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd sy'n cynnwys cyfansoddi cerdd acrostig a llunio cyfarwyddiadau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gadarn. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ramadeg sy'n cynnwys y defnydd cywir o ferfau a threigladau. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig sy'n cynnwys creu portread ac ysgrifennu dyddiadur gwas y castell. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar y profiadau hyn trwy ysgrifennu dyddiadur person o dramor yn cyrraedd Bae Teigr a chyfansoddi ymson. Er hyn, nid yw medrau ysgrifennu lleiafrif y disgyblion hŷn wedi datblygu'n llawn, yn enwedig eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn gywir.

Ar draws yr ysgol, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i sesiynau sionc dyddiol trwy ymarfer eu medrau rhifyddeg pen a'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemateg. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn cyfri yn ôl ac ymlaen hyd at gant ac yn dyblu a haneru rhifau'n llwyddiannus. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn defnyddio'u medrau'n effeithiol i ddatrys problemau mewn cyd-destunau ymarferol a rhyngweithiol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn defnyddio'i gwybodaeth o drefnolion, cyfrif fesul 2,5 a 10 ac adio rhifau un digid wrth ymateb i gwestiynau llafar gan yr athro. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol gan lwyddo i ddarganfod perimedr siapiau, darllen graddfeydd a symleiddio ffracsiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf ddarganfod cymedr, canolrif, modd ac amrediad pwysau glo ar gyfer teuluoedd yn ystod y chwyldro diwydiannol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfuno eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft i greu e-lyfr sy'n cynnwys sain a fideo i hyrwyddo pwysigrwydd cadw'n iach. Mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu'n gadarn ar y sylfaen hon. Mae defnyddio rhaglenni digidol yn rhan naturiol o ddysgu'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o raglenni i gefnogi'r dysgu yn y gwersi iaith a mathemateg yn rheolaidd. Er enghraifft, wrth greu cyflwyniad digidol am un o'r gwledydd sy'n gysylltiedig gyda'r thema 'O'r dociau i'r Bae'. Mae cadw a rhannu gwaith yn electronig wedi dod yn rhan hanfodol o'u bywydau, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth goladu gwybodaeth ar wahanol systemau. Mae bron bob disgybl yn cyflwyno eu gwaith ac ystyried yr ymateb gan athrawon ar ffurf electronig, cyn mynd ati i wella a mireinio eu gwaith ymhellach.

Mae bron bob disgybl yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth greu gwaith celf dull Affricanaidd yn dilyn astudio stori o Fotswana, ac mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn dangos medrau creadigol cryf wrth greu darluniau haniaethol gan ddefnyddio siapiau 2D. Yn ogystal, mae disgyblion wedi manteisio ar gyfleoedd buddiol i wella'u dealltwriaeth a'u medrau wrth gydweithio ag arlunydd enwog o'r ddinas i greu darnau celf eu hunain am nodweddion yr ardal leol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o ganlyniad i amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol ac wrth gymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff. Mae disgyblion y meithrin yn dangos rheolaeth gadarn wrth neidio dros wrthrychau yn y cwrs rhwystrau ac wrth iddynt wneud siapiau Ioga yn yr ardal allanol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon neu fel rhan o'u thema, er enghraifft wrth ddawnsio yn ystod amrywiaeth o wersi a sesiynau gyda myfyrwyr y coleg cyfagos.

Gan ystyried effaith y pandemig ar ddysgu, mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Mae bron bob un yn datblygu eu medrau cymdeithasol, gan gynnwys eu gallu i ymwneud â disgyblion eraill, staff ac ymwelwyr i'r ysgol yn wych.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae’r ysgol wedi sefydlu awyrgylch hynod ofalgar, cynhwysol a chartrefol sy’n sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael gofal da ac yn mwynhau eu hamser yno. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau’r disgyblion tuag at ei gilydd ac at bobl eraill, gan ddangos lefelau uchel o barch. Mae bron bob disgybl yn falch o’u hysgol a’u cymuned ac yn mwynhau dysgu am yr ardal leol, er enghraifft wrth astudio a darganfod mwy am hanes y gymuned. Maent yn dangos lefelau uchel o les ar draws yr ysgol ac yn teimlo’n ddiogel o fewn cymuned dysgu cefnogol. Mae disgyblion yn elwa’n fawr o berthnasoedd gweithio gofalgar a chalonogol gyda staff, ac mae’r rhan fwyaf yn gyfforddus i droi at gyfoedion ac oedolion am gyngor a chymorth yn ôl yr angen. Trwy dderbyn cyfleoedd niferus i drafod eu teimladau a’u hemosiynau a thrwy wirio lles bob dydd, maent yn magu hunanhyder ac agwedd bositif at fywyd.

O ganlyniad i amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr sydd ar gael, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n unigolion iach a hyderus. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am bwysigrwydd bwyta’n iach i'w cefnogi  i wneud dewisiadau doeth. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd ag ystod o weithgareddau corfforol fel rhan o’r cwricwlwm, a gweithgareddau amser egwyl ac amser cinio. Yn ogystal, maent yn deall pwysigrwydd defnyddio’r rhyngrwyd yn ddiogel, er enghraifft trwy greu clipiau fideo i rannu negeseuon pwysig gyda’u cyfoedion.

Mae bron bob disgybl yn hynod gwrtais tuag at ei gilydd ac yn dangos parch yn gyson tuag at staff ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn siarad yn hyderus ac yn gyfeillgar gyda chyfoedion ac oedolion wrth sôn am eu gwaith a’u hysgol. Mae’r rhan fwyaf yn gyfforddus wrth drin a thrafod mewn grwpiau ac ymhlith ei gilydd, gan ddangos parch a gwerthfawrogiad am gyfraniadau eraill.

Mae disgyblion sy’n rhan o gyngor yr ysgol yn ymgymryd â’u rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau yn effeithiol ac yn chwarae rhan lawn wrth wneud penderfyniadau am yr ysgol. Enghraifft arbennig yw’r diwrnod a drefnwyd ganddynt i godi arian i bobl Wcráin trwy ystod o weithgareddau hwyliog, gan gynnwys gwisgo glas a melyn, plannu hadau blodyn haul a gweithgareddau amrywiol yn y dosbarth.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd eithriadol o gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy’n cydweithio’n dda iawn o fewn y dosbarth ac yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith. Maent yn ymroddgar iawn tuag at weithgareddau dysgu a chwarae ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig i’w cwblhau. Yn ogystal, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos medrau dysgu annibynnol cryf wrth ddatblygu ac ymarfer eu medrau’n llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cydweithio’n effeithiol mewn grwpiau bach i ysgrifennu a pharatoi sgript bwletin newyddion digidol am hanes Llywelyn ap Gruffudd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn arweiniad athrawon yn llwyddiannus i herio eu hunain. Maent yn awyddus i ymgymryd â heriau newydd ac yn dangos gwydnwch wrth wneud hynny drwy ddefnyddio ystod o dechnegau i ddal ati pan fydd pethau’n anodd. Er enghraifft, maent yn ceisio datrys problemau ar eu pennau eu hunain drwy ddefnyddio’r medrau neu’r hyn maent yn ei wybod eisoes cyn holi ffrind, athro neu oedolyn arall.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynu effeithiol ac adborth llafar gan yr athrawon yn ystod gwersi. O ganlyniad, maent yn gwybod sut i wneud gwelliannau i'w gwaith ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da yn gyson.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar addysgu medrau sylfaenol, gan alluogi disgyblion i'w cymhwyso mewn themâu sy'n ehangu a dathlu eu gwybodaeth o'u hardal leol, eu treftadaeth a'r byd ehangach. Mae'r cwricwlwm yn alinio â'r weledigaeth 'Lles, dyheadau uchel a pherthnasoedd' ac yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth mewn modd iach ac uchelgeisiol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion cyfagos i gynllunio cwricwlwm cyffrous sy'n berthnasol i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i ymagweddau at ddylunio'r cwricwlwm gan ystyried y camau gorau i'r dyfodol ar gyfer cymuned gyflawn yr ysgol. Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol sy'n cynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu'r natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach. Enghraifft arbennig o hyn yw prosiect yr ysgol am yr ardal leol, "Fy mhobl, fy Mhentwyn", sy'n dathlu amrywiaeth trwy waith celf gan arlunydd enwog o Gaerdydd a chyfweld â chymeriadau sy'n byw yno.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gydag ehangder a dyfnder i ddatblygu diddordebau a medrau ehangach disgyblion. Er enghraifft, mae thema 'O'r dociau i'r Bae' yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn fod yn dditectifs er mwyn darganfod hanes pobl a symudodd i Fae Teigr dros gyfnod o hanner can mlynedd. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn creu amgylchedd ddysgu gynhwysol sy'n yn galluogi disgyblion i fentro, dyfalbarhau a goresgyn heriau. Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n frwdfrydig ac angerddol i drochi'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol. Maent yn modelu iaith gywir, yn dangos brwdfrydedd at y Gymraeg ac yn gosod disgwyliadau uchel. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos balchder yn eu gallu i siarad Cymraeg.

Yn nosbarthiadau isaf yr ysgol, mae'r staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion ac maent yn darparu ystod dda iawn o brofiadau dysgu a chwarae sy'n eu sbarduno i wneud eu gorau. Maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer yr ardal allanol er mwyn datblygu medrau disgyblion a'u cefnogi i symud i gam nesaf eu datblygiad. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir a phwrpasol i wersi a phrofiadau dysgu sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae'r athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cefnogi datblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn fedrus. Mae athrawon a chynorthwywyr yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac adborth llafar yn bwrpasol er mwyn dathlu llwyddiannau a'u harwain at y camau nesaf yn eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'r athrawon yn asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol yn drwyadl. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a chynnig sylwadau ar waith eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn gwerthuso gwaith eu cyfoedion ar y sgrin fawr ar ddiwedd y sesiwn er mwyn rhannu syniadau ar sut i wella'u disgrifiadau o fôr ladron. Mae defnydd yr athrawon o adborth ysgrifenedig er mwyn adnabod cryfderau a mannau gwella disgyblion yn datblygu. Er hyn, nid yw disgyblion bob tro'n  cael cyfleoedd pwrpasol i wella ansawdd eu gwaith yn dilyn adborth ysgrifenedig athrawon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i greu awyrgylch hapus a chynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth a Chymreictod yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol y disgyblion yn arbennig er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa ar yr amrywiaeth o gyfleoedd y mae'n ei chynnig. Ceir pwyslais cryf ar gynhwysiant a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau dynol. Yn ogystal, mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus trwy ystod o weithgareddau a digwyddiadau sy'n hyrwyddo gwerthoedd fel parch, empathi a thrugaredd yn effeithiol.

Caiff gwerthoedd yr ysgol eu deall yn dda gan y disgyblion, a chânt ddylanwad cadarnhaol ar eu hagweddau a'u hymddygiadau. Mae'r disgyblion yn meithrin gwerthoedd cytûn sydd yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill, yn lleol ac fel aelodau o fyd amrywiol. Mae gweithredoedd addoli ar y cyd yn bwrpasol ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw rhannu Neges Ewyllys Da Yr Urdd gan drafod ac egluro pwysigrwydd edrych ar ôl ein byd. Mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion  ddysgu am grefyddau'r byd sy'n cynnwys astudio mosg a Phum Piler Islam, yn ogystal ag ymweld â lleoliadau addoli eraill ar draws y ddinas. Maent hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i wahodd ymwelwyr gan gynnwys rhieni a gofalwyr i siarad â'r disgyblion am eu bywyd, eu crefydd a'u treftadaeth.

Mae cyfleoedd cyson ac effeithiol i'r holl ddisgyblion ddatblygu medrau corfforol yn ystod sesiynau bwriadus ac yn yr ardaloedd tu allan i'r dosbarthiadau. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn helpu disgyblion i ddeall effaith dewisiadau ffordd o fyw ac ymddygiad ar eu hiechyd meddwl a chorfforol a'u lles nawr ac yn y dyfodol. Mae holl staff yr ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn er mwyn adnabod anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol fel tîm canolfan lles yr awdurdod lleol sydd ar safle'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod staff yr ysgol yn cael hyfforddiant a chyngor pwrpasol er mwyn diwallu anghenion lles ac emosiynol disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu datblygiad personol, cymdeithasol a'u hagweddau tuag at fywyd ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi parhau drwy gyfnod y pandemig i weithio gyda asiantaethau allanol er mwyn cynnal a chefnogi lles a diogelwch disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cychwyn paratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn addas wrth baratoi cynlluniau addysg unigol a chynlluniau datblygu unigol. Mae'r staff yn cynllunio darpariaeth bwrpasol i gefnogi disgyblion o fewn y

dosbarthiadau. Er hyn, prin yw'r defnydd o ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol i ddiwallu anghenion dysgu penodol ychydig o ddisgyblion.

Mae arweinwyr ac athrawon yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni a gofalwyr gan ddefnyddio ystod dda o gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â'u parodrwydd i drafod â rhieni yn uniongyrchol yn ôl yr angen. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon yn syth. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi parhau i gefnogi a chyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr trwy gydol y pandemig.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau staff rheolaidd. Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ysgol gyfagos sydd yn rhannu'r safle er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth, arweinwyr a'r holl staff yn cydweithio â'i gilydd yn hynod effeithiol i greu awyrgylch ac amgylchedd dysgu Cymreig, gofalgar ac ysbrydoledig i'r disgyblion. Mae arweinyddiaeth gref a doeth y pennaeth yn sicrhau cyfeiriad strategol clir a phwrpasol sy'n ennyn brwdfrydedd yr holl staff, i wneud eu gorau dros yr ysgol a'i chymuned. Mae gweledigaeth gytûn yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu lles, dyheadau uchel a chynnal pherthnasoedd gweithio da. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hysgol.

Mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn ymgymryd â chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cyfrannu'n werthfawr iawn at eu datblygiad. Mae'r ystod dda o brofiadau gwerthfawr i unigolion ddatblygu'n broffesiynol ac i arwain ar agweddau penodol o waith o fewn yr ysgol ac yn ehangach. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio sy'n digwydd o fewn y teulu o ysgolion lleol i gynllunio a pharatoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn galluogi athrawon ac arweinwyr i wella'u dealltwriaeth o egwyddorion a chynnwys y cwricwlwm yn ogystal â datblygu eu medrau arwain eu hunain.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn effeithiol. Er bod y pandemig wedi lleihau'r ystod o weithgareddau monitro, mae arweinwyr ac athrawon wedi parhau i graffu ar lyfrau disgyblion ynghyd â chasglu barn rhieni eleni. Mae hyn wedi galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau ynghyd â'r agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir. Mae hyn wedi sicrhau eu bod wedi mynd ati i gynllunio'n bwrpasol i wella elfennau o'r ddarpariaeth fel datblygu medrau sillafu disgyblion. Defnyddir y wybodaeth o'r trefniadau monitro yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau lles a chynnydd ym medrau disgyblion, gan baratoi'n ardderchog ar gyfer dyfodiad Cwricwlwm i Gymru.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn dda. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Er bod eu hymweliadau monitro wedi'u cyfyngu oherwydd y pandemig, mae aelodau'r corff wedi parhau i gwrdd yn rhithiol yn rheolaidd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol a thrafod gwaith yr ysgol. Yn ogystal, maent yn derbyn

gwybodaeth a chyflwyniadau defnyddiol gan y pennaeth ac arweinwyr eraill am waith yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad da iawn o adnoddau sy’n cefnogi’r dysgu’n effeithiol. Maent yn cydweithio’n llwyddiannus gydag arweinwyr yr ysgol arall sydd ar yr un safle, er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r adeilad a’r adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd pwrpasol o’r neuaddau ar gyfer gweithgareddau fel chwaraeon, gwasanaethau ysgol gyfan a chlybiau cyn ac ar ôl ysgol. Mae arweinwyr yn rheoli’r cyllid yn effeithiol gan wneud defnydd pwrpasol o amrywiaeth o grantiau ychwanegol, er enghraifft trwy gyflogi cymhorthydd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn dilyn cyfnodau clo y pandemig. Mae hyn yn cyfrannu’n werthfawr at ddatblygu medrau a lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2022